Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer trafod y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

Mawrth 2019

Ar 25 Mawrth 2019, cafodd Bil y Llywodraeth, Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) ei gyflwyno yn y Cynulliad.

Ar 5 Mawrth 2019, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg er mwyn iddo drafod yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 19 Mawrth 2019, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar amserlen i'r Pwyllgor drafod egwyddorion cyffredinol y Bil a chytuno y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 19 Gorffennaf 2019.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 8 Tachwedd 2019, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.